**Dyddiad: 5 Gorffennaf 2000**

**Statws: Papur i'w nodi yn unig**

# Teitl: Y DIWEDDARAF YNGHYLCH EHANGU NIFER Y MYFYRWYR MEDDYGOL ISRADDEDIG

## Diben

1. Nodi'r cynnydd a wnaed at ehangu nifer y myfyrwyr meddygol israddedig. Mae hyn yn dilyn trafodaethau blaenorol gan y Cynulliad yn Nadl y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr 1999.

## Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r:

- cefndir ar gyfer ehangu nifer y myfyrwyr meddygol israddedig;
- yr hyn a wnaed hyd yma;
- y camau nesaf.

## Amseru

3. Rydych chi, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi nodi eich bod am glywed beth yw'r cynnydd diweddaraf a wnaed yn y maes hwn. Er mai'ch dymuniad chi oedd cynnal dadl ar y mater, credaf y dylid gohirio hyn hyd nes y bydd cynigion yn cael eu cyflwyno gan yr is-grwpiau a ddisgrifir isod, ddechrau'r Hydref, yn ôl y disgwyl.

## Cefndir

4. Ym mis Tachwedd 1997, cyhoeddodd Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog y Gweithlu Meddygol (MWSAC), a oedd yn rhoi cyngor ar niferoedd myfyrwyr meddygaeth israddedig yn y DU, ei drydydd adroddiad yn nodi bod gofyn ehangu, gan ddarparu hyd at 1000 o leoedd ychwanegol.

5. Ar y pryd, sefydlwyd grp ymgynghorol i archwilio'r posibiliadau o ehangu ar gais Win

Griffiths a Peter Hain, yr Is-Ysgrifenyddion Gwladol Seneddol. O ganlyniad i hyn, derbyniwyd cynigion i ehangu mewn dau gam, drwy gael 35 o fyfyrwyr ychwanegol y flwyddyn ym 1999 a 65 yn 2001. Ym mis Ebrill 1999, cymeradwyodd Alun Michael, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, y cynnig a wnaed ym 1999 i ddarpau 35 o leoedd ychwanegol, ond gohiriodd unrhyw benderfyniadau pellach hyd nes y byddent yn disgyn ar ysgwyddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. Yn y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr 1999, cytunodd Aelodau'r Cynulliad na ddylai fod ail ysgol feddygol yn Abertawe; yn hytrach, mabwysiadwyd cynnig diwygiedig a gyflwynwyd gan Andrew Davies, Y Trefnydd.

7. Un o'r ymrwymiadau a gododd o araith Andrew Davies oedd y byddwn i, ar y cyd â Tom Middlehurst, yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant, yn cynnal trafodaeth â chyfranddeiliaid allweddol o gylch y bwrdd ar sut i fwrw ymlaen ag ehangu.

8. Cytunwyd hefyd mai mwy o gydweithrediad rhwng Abertawe a Chaerdydd fyddai'r ffocws ar gyfer ehangu yn y lle cyntaf, ac yn benodol:

- y byddai unrhyw benderfyniadau yn adeiladu ar brofiad a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe (UWS) wrth weithio ar y cyd â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (UWCM);
- y byddai hyn yn arwain at ddysgu myfyrwyr ar gampws UWS ac y byddent felly'n manteisio ar ei adnoddau ymchwil a dysgu;
- y byddai'r ehangu hwn a wnaed ar y cyd, yn arwain at broffil uwch a chynnydd mewn adnoddau yn Abertawe.

**Cynnydd hyd yma**

9. Ar ôl y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn, cychwynnodd Swyddogion y Cynulliad eu trafodaethau ag unigolion allweddol ynghylch cydweithredu rhwng Abertawe a Chaerdydd. Nodwyd beth oedd sefyllfa pob un o'r tri Sefydliad Addysg Uwch (SAUau) - Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWC), UWS a UWCM - a pha gyfraniadau y byddent ill tri yn eu gwneud er mwyn darparu niferoedd ychwanegol o fyfyrwyr.

10. Ystyriwyd y rhain mewn cyfarfod â Tom Middlehurst ar 12 Ebrill, a gadeiriwyd gennyf i. Ar ddechrau'r cyfarfod, nodais yr ymrwymiad yr oeddem am ei weld, a oedd yn cynnwys:

- ehangu trwy ddarparu 65 o leoedd ychwanegol erbyn 2001, â gwyddorau biomeddygol yn parhau i gael eu dysgu yn UWC yn unig bryd hynny;
- datblygu "Ysgol Glinigol" yn Abertawe a fydd yn galluogi'r Brifysgol ac Ymddiriedolaethau NHS i chwarae rhan realistig yn yr agweddau clinigol ar ehangu nifer y myfyrwyr meddygol israddedig;

- ystyried y potensial ar gyfer cwrs mynediad dynodedig i raddedigion ar safle Abertawe, ond i'w ddysgu ar y cyd â UWCM a UWC. Byddai hyn yn cynnwys ffurfio achos busnes strategol sy'n nodi asesiad angen; ansawdd yr addysg sydd i'w darparu i fyfyrwyr meddygaeth; ac agweddau'n ymwneud â chael gwerth am arian.

11. Erbyn diwedd y cyfarfod, cytunwyd y dylid bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn ac y dylid sefydlu grp rheoli prosiect, gyda Dr Ruth Hall, y Prif Swyddog Meddygol, yn Gadeirydd. Adlewyrchwyd y canlyniadau hyn mewn Hysbyseb i'r Wasg a gyhoeddwyd yr un diwrnod.

12. Ers y cyfarfod, mae fframwaith rheoli prosiect, sy'n adlewyrchu'r 3 ymrwymiad, wedi cael ei chynhyrchu; wedi cael ei hystyried gan y rhai a fynychodd y cyfarfod; ac wedi'i diwygio. Atodir copi o'r fersiwn derfynol yn Atodiad A. Byddwch yn nodi o'r rhestr o gyfranogwyr bod aelodaeth y grp wedi'i hymestyn y tu hwnt i'r grp gwreiddiol a gyfarfu ar 12 Ebrill, er mwyn sicrhau bod cymaint o arbenigedd â phosib yn cyfrannu a bod anghenion ehangach y Gorllewin yn cael eu hadlewyrchu.

**Y Camau Nesaf**

13. Cychwynnodd y cyfarfod a'r gwaith ym mis Mehefin. Disgwylir i gynigion yr Ysgol Glinigol fod yn barod erbyn mis Medi ac mae trafodaethau anffurfiol yn cael eu cynnal eisoes rhwng Swyddogion UWCM a UWS ynghylch yr hyn y gallai hyn ei olygu. Bydd cytundeb ynghylch hyn yn galluogi comisiynu'r 65 myfyriwr ychwanegol yn 2001.

14. Dylai bod Achos Busnes ar gyfer mynediad i Raddedigion hefyd yn barod erbyn yr Hydref. Bydd hwn yn cael ei ystyried yng ngolau dymuniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weld ehangu pellach y tu hwnt i 2001.

15. Bydd angen i'r is-grp Monitro Ariannol ystyried yn fanwl effeithiau ehangu ar gyfer ariannu'r Hicyn Gwasanaeth ar gyfer Dysgu a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'n debyg y bydd y grp hwn yn parhau am gyfnod hwy.

16. Pan gyflwynir y sylwadau penodol ynghylch cydweithrediad Abertawe/Caerdydd bydd y grwpiau'n datblygu i ystyried cyfraniad Cymru'n fwy eang.

**Cydymffurfio**

17. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i gyllido addysg feddygol drwy swyddogaethau o dan adran 63 Deddf Gwasanaeth Iechyd a Iechyd Cyhoeddus 1968. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u datganoli a'u trosglwyddo trwy broses o dan Erthygl 2 atodlen 1 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (trosglwyddo swyddogaethau) 1999. Dirprwywyd y pwerau hyn i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion yn codi ynghylch rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Cyllid**

18. Dylid ymdrin â goblygiadau ariannol yr ymrwymiadau hyn o fewn y ddarpariaeth refeniw a wnaed yn ystod y Cylch Cynllunio’r Gyllideb diwethaf. Dylai’r Aelodau hefyd nodi bod swm bychan, £267k, wedi ei roi o’r neilltu o fewn yr arian cyllideb newydd ar gyfer Iechyd ar gyfer gwariant cyfalaf i gychwyn ar y gwaith yn Abertawe yn ystod 2000-01.

**Themâu Trawsbynciol**

19. Gan fod addysg Feddygol yn cael ei chyllido ar y cyd trwy’r Pleidleisiau Addysg a Iechyd; ac addysg israddedigion yn cael ei darparu yn y sector addysg Uwch, byddai gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant (ar ôl 16) ddiddordeb yn y canlyniadau. Mae diddordeb hefyd gan Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin.

**Gweithredu**

20. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas ag ehangu nifer y myfyrwyr meddygol israddedig a gohirio’r drafodaeth ar y mater hyd nes y bydd y cynigion cychwynnol wedi cael eu derbyn yn yr Hydref.

**Cyswllt**

21. Y cyswllt ar gyfer ymholiadau yw Kim Tester, Pennaeth Addysg Feddygol a Deintyddol, yr Is-adran Adnoddau Dynol.

**Jane Hutt**

**Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Atodiad A**

# Fframwaith Rheoli Prosiect ar gyfer Ehangu Nifer y Myfyrwyr Meddygol Israddedig

# RHESTR GYFEIRIO O ENWAU YN NHREFN YR WYDDOR AR GYFER ATODIAD A

**Mynychwyr Cyfarfod 12 Ebrill a gynhwysir yn y fframwaith**

Yr Athro John **Andrews**, Cyn Brif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Yr Athro John **Baxter**, Ysgol Feddygol Ôl-Raddedig, UWS

Yr Athro Ian R **Cameron** CBE, Is-Ganghellor, UWCM

Mr David **Edwards**, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro

Dr Ruth **Hall**, Prif Swyddog Meddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Athro Julian **Hopkin**, Ysgol Gwyddorau Biolegol, UWS

Mr Tom **Hunter**, NATED, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr Stephen **Redmond**, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr Les **Rees**, Cofrestrydd, UWCM

Syr Brian **Smith**, Is-Ganghellor, UWC

Dr Pat **Steane**, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Mrs Kim **Tester**, HRD2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gladys **Tinker**, Cynghorydd Proffesiynol Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Athro Robin **Williams**, Is-Ganghellor, UWS

Yr Athro Ken **Woodhouse**, Is-Ddeon Meddygaeth, UWCM

Aelodau newydd a enwebwyd:

Yr Athro Les **Borysiewicz**, Athro Meddygaeth, UWCM

Mr Andrew **Clark**, Pennaeth Cyllid, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mr Huw **George**, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro

Mr Philip **Gough**, Cyfarwyddwr Cyllid, UWS

Mr Roger **Harry**, Cyfarwyddwr Cyllid, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Dr Chris **James**, Meddyg Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen

Mr Ian **Lane**, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro

Mr Steve **Martin**, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Dr Glanville **Morris**, Meddyg Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin

Mrs Jane **Perrin**, Prif Weithredwr, Awdurdod Iechyd Morgannwg

Dr Iain **Robbe**, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Awdurdod Iechyd Bro Taf

Mr Alun **Roberts**, Cyfarwyddwr Uned Gyswllt yr NHS a'r Coleg, UWCM

Yr Athro Geraint **Roberts**, Deon Meddygaeth, UWCM

Dr Quentin **Sandifer**, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Awdurdod Iechyd Morgannwg

Mr Jack **Straw**, Cyfarwyddwr Rheoli Adnoddau, Awdurdod Iechyd Bro Taf

Dr Keith **Vaughton**, Wrolegydd Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Yr Athro Raymond **Waters**, Pennaeth Ysgol Gwyddorau Biolegol, UWS

Dr Clive **Weston**, Meddyg Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth Iechyd Abertawe

Mr David **Williams**, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Mr Eifion **Williams**, Cyfarwyddwr Cyllid, Awdurdod Iechyd Morgannwg

Mr J Huw **Williams**, Rheolwr Cyffredinol/ Pennaeth Cynllunio Gwasanaeth, Abertawe

Mrs Jan **Williams**, Prif Weithredwr, Awdurdod Iechyd Bro Taf

Mrs Janet **Williams**, Pennaeth Gweithredoedd, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Dr Peter **Winterburn**, Is-ddeon Meddygol, UWC

**Atodiad A**

# Fframwaith Rheoli Prosiect ar gyfer Ehangu Nifer y Myfyrwyr

---

## Meddygol Israddedig